# Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed Ysgubor y Coed Community Council

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2017**

**2017/29. Presennol:** Cynghorwyr Toland (yn y gadair), Griffiths, Mason, Swanson a B. Thomas. Bu'r clerc yn gweinyddu.

**30. Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Goodman

**31. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol:** Derbyniwyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfodydd ar 12 Gorffennaf 2017, 28 Awst 2017 a 5 Medi 2017.

**32. Datganiadau o ddiddordeb:**
Cynghorydd Thomas: palmant; Cynghorwyr Griffiths a Swanson: Eglwys a'r Ystafell Haearn

**33. Materion yn codi:**

i. Penderfynwyd gofyn am esboniad ynglŷn â Llwybrau Teithio Llesol - pam nad yw'r gymuned yn sgorio'n uwch? Nodwyd bod rhieni yn poeni am ddiogelwch eu plant. Penderfynwyd hefyd gofyn am dynnu'r prysg ar ymylon y ffordd. Nodwyd bod y gymuned yn fan cul ar yr A487. Penderfynwyd ysgrifennu at Elin Jones AC a Ben Lake AS am y mater.
**Pwynt gweithredu:** Clerc i ysgrifennu eto am ysgrifennu i'r Llywodraeth, Elin Jones AC a Ben Lake AS.

ii. Adroddwyd bod y Cadeirydd wedi cwrdd â Swyddog Ystadau'r RSPB ynglŷn â'r lle chwarae. Mae ffens wedi'u gosod o gwmpas y safle ac mae prydles ar ei ffordd. Mae'r RSPB yn hapus i roi meinciau i'r Cyngor ar gyfer y safle.

iii. Nodwyd bod y Cadeirydd wedi siarad â'r cynrychiolydd Network Rail ynglŷn â chael cyfarfod safle. Nid oes modd iddi ddod tan gyn y cyfarfod nesaf.

iv. Adroddwyd bod rhywun wedi trwsio'r fainc yn y maes parcio. Roedd y lle dan ddŵr yn gyfan gwbl yn ddiweddar.
**Pwynt gweithredu:** Clerc i drefnu cyfarfod safle gyda Cadw.

v. Adroddwyd bod ymgeisydd posib wedi cysylltu â'r Clerc presennol am fanylion am swydd y Clerc newydd.

vi. Nodwyd y llythyr am gysgodfa bws Eglwys-fach gan y cyfreithiwr. Penderfynwyd gofyn i Mr a Mrs Agnew, Banc y Llan, am gyfarfod er mwyn gweld gweithredoedd eiddo Banc y Llan.
**Pwynt gweithredu:** Cynghorwyr Griffiths a Swanson i drefnu cyfarfod gyda Mr a Mrs Agnew.

vii. Bydd Cynghorydd Thomas yn atgoffa perchennog y garej i symud yr arwyddion sy'n rhwystro'r palmant.

**34. Cyllid:**

i. Penderfynwyd ystyried cais am gymorth ariannol gan Urdd Gobaith Cymru Ceredigion yn y cyfarfod ym mis Ionawr.
ii. Derbyniwyd yr adroddiad ariannol.
iii. Derbyniwyd y rheoliadau ariannol.

**35. Gohebiaeth a Chyfathrebu:**

i. Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan Un Llais Cymru:
   a) Diwygio Deddfwriaeth Diogelu Data: nodwyd.
   b) Ymgynghoriad ar y Bil Awtistiaeth (Cymru) arfaethedig: nodwyd.

c) Ymgynghoriad ar ddiwygio etholiadol: penderfynwyd y byddai'r cynghorwyr yn ateb yn unigol.

ii. Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan Gyngor Sir Ceredigion:

a) Ymgynghoriad ar Bolisi Drafft Casgliadau Stryd a Chasgliadau Elusennol o Dŷ i Dŷ: nodwyd

b) Polisi Drafft Awdurdodu Ffilmiau: penderfynwyd rhoi hwn i'r Ystafell Haearn.

iii. Nodwyd *Clerks and Councils Direct*

iv. Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:

a) Siarad Iechyd: nodwyd.

v. Cylchlythyr SARPA: nodwyd

vi. Nodwyd 'Corff Llais y Bobl' gan Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda.

vii. Gorchymyn Cefnffordd A487 (Pont Newydd Dros Afon Dyfi a Thynnu Statws Cefnffordd, Machynlleth a Ffyrdd Ymyl) 201-: nodwyd y cyfarfod cyhoeddus.

**36. Unrhyw Fater Arall:**

i. Nodwyd hysbyseb am y bws ailgylchu - awgrymwyd gwahodd y bws i'r gymuned.

ii. Nodwyd bod RSPB angen tocio'r llwyni ger Pont Ffwrnais.

**37. Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 8 Tachwedd 2017.